

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd Nos Fercher 11.05.16 yn Y Ganolfan, Llwyngwril

Presennol: Dylan Thomas (Cadeirydd), Keith Carroll, Huw Davies, Geraint Edwards, Kevin Goodchild, Karen Shellis, Ian Williams, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Ymddiheuriadau:** Avril Garrod, Eleri Williams, Louise Hughes.

2. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r **cyfarfod blynyddol** a thrafodwyd swyddi newydd am 2016-17.

Cadeirydd: Geraint Edwards wedi cytuno i fod yn Gadeirydd.

Is-gadeirydd: Karen Shellis wedi cytuno i fod yn Is-gadeirydd. **Cynnig:** Dylan Thomas **Eilio:** Kevin Goodchild.

Diolch i Dylan Thomas am ei waith fel Cadeirydd am y ddwy flwyddyn ddiwethaf.

Cynrychiolwyr: **Avril Garrod** → Pig yr Allt, **Karen Garrod** → Pwyllgor Ysbyty Tywyn, **Ian Williams** → Heddlu, **Dylan Thomas + Kevin Goodchild** → Un Llais Cymru, **Eleri Williams** → Llywodraethwyr yr Ysgol.

Cyfethol Aelod Newydd: Derbyniwyd un cais - gan Geraint Micah. Pawb yn gytûn i'w gyfethol.

Penderfyniad → Cyfethol Mr Geraint Micah. **Cynnig:** Geraint Edwards **Eilio:** Karen Garrod.

Llythyr i'w yrru i Gyngor Gwynedd gyda'r wybodaeth yma, a llythyr i'w yrru i Geraint Micah gyda manylion y cyfarfod nesaf.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 09.03.16 fel rhai cywir. **Cynnig** – Keith Carroll **Eilio** – Huw Davies **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (09.03.16):**

- a) **Rhwystrau Diogelwch ar yr Allt Friog** – ateb wedi ei dderbyn gan Network Rail yn cadarnhau fod Cyngor Gwynedd i wneud y gwaith ar ran Network Rail. Bydd N/R mewn cysylltiad maes o law gyda'r wybodaeth ddiweddaraf. **Penderfyniad** → GE i gysylltu â Network Rail i ofyn pa ddyddiad fydd y gwaith i ddechrau.
- b) **Biniau Halen** - dim ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â'n hymholiad diwethaf. **Penderfyniad** → GE i yrru'r wybodaeth ynglŷn â'r biniau halen i Kevin Goodchild.
- c) **Heddlu Gogledd Cymru** - ateb wedi ei dderbyn gan Dîm Plismona'r Gymdogaeth - maent am drefnu i'r swyddogion lleol gynnal cysylltiadau gydag ieuencid y pentref drwy fynychu'r Clwb Ieuencid.
- d) **Network Rail** - dim ateb wedi ei dderbyn ynglŷn â'n hymholiad ynglŷn â goleuadau yn yr orsaf.
- e) **Hysbysfwrdd newydd** - ? A fyddai Cyngor Gwynedd yn fodlon rhoi'r hysbysfwrdd newydd i fyny ar ran y CC? **Penderfyniad** → GE i gysylltu ag Aled Lewis, Cyngor Gwynedd.
- f) **Materion Cymunedol** - dim ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â dŵr yn llifo lawr ffordd Henblas.
- g) **Parc Cenedlaethol Eryri** - ateb wedi ei dderbyn yn cadarnhau na all Parc Cenedlaethol Eryri wneud mwy ynglŷn a'r broblem fod pridd a deunydd gwastraff yn dal heb gael eu symud o'r tir ger Yr Hen Efail.

5. **Gohebiaeth:**

- a) **ROSPA:** hysbysiad fod yr archwiliad blynyddol o'r cae chwarae wedi ei drefnu erbyn Mis Mehefin 2016.
- b) **Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2016:** llythyr yn diolch am y rhodd o £25.00 gan y Cyngor Cymuned.
- c) **Ysgol Craig y Deryn** - ateb wedi ei dderbyn gan Liz Saville Roberts ynglŷn â chyflwr Ysgol Craig y Deryn, wedi i'r Cyngor Cymuned fynegi eu pryderon iddi hi mewn llythyr, dyddiedig 01.02.16.
- d) **Parc Cenedlaethol Eryri:** gwybodaeth am yr Ymgynghoriad Cyhoeddus: Goleuo Ymwthiol (Llygredd Golau).
- e) **Cyngor Gwynedd:** gwybodaeth ynglŷn â newid yn nhrefniant ad-daliad costau cynnal llwybrau cyhoeddus.

- f) **Cyngor Gwynedd:** cyfle i gynnig sylwadau ar ardaloedd cymunedol Gwynedd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus → sylwadau i'w anfon ymlaen i Gyngor Gwynedd.
- g) **Un Llais Cymru:** gwybodaeth am y cyfarfod nesaf - 25.05.16 yn Neuadd Pendre, Tywyn am 7.00yh.
- h) **Mr E T Wilde:** llythyr wedi ei dderbyn ganddo yn mynegi'r pryderon difrifol sydd ganddo ynglŷn â'r "blaenoriaethu amhriodol" mae'r cyngor yn ei gyflawni o wariant y Cyngor Cymuned
- Penderfyniad** → llythyr i'w yrru i ddiolch iddo am fynegi ei bryderon, a'i gysuro fod popeth yn cael ei wneud yn gywir.

6. **Materion Cynllunio:**

- a) **Rhif Cais: NP5/69/LB324A** – Adeilad amaethyddol i'r Gogledd Ddwyrain o Hendre Hall, Llwyngwrlil. Trosi ysgubor yn uned gwyliau → **cais wedi ei ganiatáu gan y Parc Cenedlaethol Eryri.**
- b) **Rhif Cais: NP5/69/382** – Tynllech Cottage, Llangelynnin - estyniad deulawr a ffenestr dormer i'r cefn, ail-adeiladu ports ffrynt, a dymchwel simdde → **dim sylwadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.**

7. **Adroddiad Ariannol:** Derbyniwyd Adroddiad Mis Mawrth + Ebrill 2016 yn gywir.

Cynnig – Ian Williams **Eilio** – Karen Garrod **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.

- a) Praesept wedi ei dderbyn (am 6 mis) = £3,900.00.
- b) Ffurflen ad-daliad TAW 2015-16 wedi ei pharatoi i'w gyrru i'r Swyddfa Dreth (HMRC) = £385.25
- c) AON – polisi yswiriant y Cyngor Cymuned i gael ei adnewyddu erbyn 01.06.16
- Penderfyniad** → pawb yn gytûn i adnewyddu'r polisi hefo AON, felly anfon sic eiddant = £824.24

Cyfrifon y Cyngor Cymuned – 2015-16:

- Derbyniwyd Cyfrifon y Cyngor Cymuned am y flwyddyn yn diweddi 31.03.16 yn gywir.
Cynnig – Ian Williams **Eilio** – Karen Garrod **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.
- Ffurflen Flynyddol 2015-16, wedi ei pharatoi yn barod i'r Archwiliad Mewnol.
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 + 2) wedi eu cwblhau gyda'r Aelodau.
Penderfyniad → penodi Mr J D Roberts yn Archwilydd Mewnol i archwilio cyfrifon y Cyngor Cymuned ar y 27.05.16.
- Cwmni BDO LLP wedi eu penodi i wneud yr Archwiliad Blynyddol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y 11.07.16.
- Hysbysiad o'r Archwiliad i'w arddangos ar yr hysbysfwrdd.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Ddim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

- a) Côt Ymddygiad Diwygiedig wedi ei fabwysiadu, a chopi wedi ei gyflwyno i'r Aelodau.
- b) Cais wedi ei dderbyn gan aelod o'r gymuned i ofyn a all y Cyngor Cymuned ofalu am y toiledau cyhoeddus yn y pentref?
Penderfyniad → Cyngor y Gymuned ddim i weithredu ar hyn tra bod Cyngor Gwynedd yn hawlio'r toiledau cyhoeddus ond efallai y bydd y sefyllfa yn newid yn y dyfodol.
- c) Cae Chwarae - adroddiad wedi ei dderbyn gan aelod o'r gymuned fod y "slide" yn y Parc angen sylw
Penderfyniad → Keith Carroll a Geraint Edwards wedi cynnig mynd i drwsio'r "slide" ar ôl y cyfarfod yma.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher - 08.06.16 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwrlil

Arwyddwyd

Cadeirydd **Dyddiad**